



Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 353 - 16 Chwefror 2012
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2012.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 352

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 352.

Aelodaeth - Mae'r DCMS wedi cytuno i hysbysebu ar gyfer hyd at ddau aelod newydd o'r Awdurdod.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig. Cyfeiriodd at yr adroddiad sydd ar waith i amrywiaeth a hil ar S4C. Roedd wedi cyfarfod â Chadeiryddion a Phrif swyddogion Sioe Frenhinol Cymru i drafod y bartneriaeth rhyngom.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad.

Y staff – Roedd IHJ wedi cyfarfod â'r staff ar ei diwrnod cyntaf. Pwysleisiodd ei athroniaeth o sefydlogrwydd, yn fewnol ac allanol, ac o symleiddio'r ffordd o weithio. Gofynnir iddynt fabwysiadu'r syniadau canlynol: cydweithio, cyfathrebu, hyder, uchelgais a beiddgar.

Ail strwythuro – ei fan cychwyn yw deall gofynion y gynulleidfa sy'n codi cwestiynau am ein defnydd o ymchwil, marchnata, mesuriadau perfformiad ac adborth ar ôl darlledu.

Y drefn gomisiynu newydd - Roedd yn awyddus i symud at drefn o gomisiynu cynnwys gan bedwar comisiynydd unigol dan arweiniad cyfarwyddwr cynnwys. Bydd newid o ffenestri comisiynu i drefn comisiynu ddi-dor a phroses weinyddol wedi symleiddio. Roedd hefyd am edrych ar y broses tendro.

Clirlun – Cyfeiriodd IHJ at adroddiad yn amlinellu'r arbedion a'r oblygiadau o dynnu allan o Clirlun. Ar yr amod ein bod yn gallu gadael heb gosb cytunodd yr Awdurdod i adael Clirlun drwy'r dull mwyaf effeithiol.

Adroddiad Fforwm Cyfryngau Newydd - sefydlwyd grŵp mewnol i edrych ar yr holl bapurau ac adborth yn dilyn yr ymgynghoriad. Y bwriad yw sefydlu cynllun gwaith ac amserlen ar gyfer y tair blynedd nesaf. Awgrymwyd cyflwyno'r cynllun i'r Awdurdod ym mis Mawrth/Ebrill.

4. Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu

Cyflwynodd GR ei adroddiad ar ran yr adran gomisiynu gan gyfeirio at nifer o raglenni diweddar. Nodwyd ei fod yn braf gweld cyflwynwyr newydd yn cael eu datblygu.

Cyflwynodd adroddiad a dderbyniodd gan y BBC ar gyflenwad rhaglenni'r BBC i S4C ar gyfer 2012-2013. Cyflwynwyd y ddogfen i Gyngor Cynulleidfa Cymru'r BBC ddydd Gwener ddiwethaf. Cymeradwyodd yr Awdurdod y ddogfen.

5. Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

Adroddodd RhT yn ôl i'r Awdurdod yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y bore.

6. Cymeradwyo Cynllun Gwaith 2012

Cyflwynodd PW ddiweddariad o'r Cynllun Gwaith 2012 sy'n cynnwys sylwadau'r Aelodau a'r

Prif Weithredwr. Awgrymwyd creu crynodeb ar gyfer y dudalen flaen. Cymeradwywyd y Cynllun ar y sail hynny.

7. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Gwifren
- Adroddiad Cyllid
- Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol